COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS AR DYDD MERCHER, 11 MEDI 2024 09:30

Presennol

Y Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Easterbrook | R Williams | J Llewellyn-Hopkins | J E Pratt |
| RM James | RJ Collins | H T Bennett | A R Berrow |
| S J Bletsoe | C Davies | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MJ Kearn a/ac P W Jenkins

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Oscar Roberts | Business Administrative Apprentice - Democratic Services |
| Kirsty Evans | Senior Licensing Officer |
| Nick Dennison | Cyfreithiwr |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth |

Datganiadau o Ddiddordeb
Nid oedd unrhyw ddatganiadau.

**35. Cymeradwyo Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Cymeradwywyd cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trwyddedu 22/05/24 fel gwir gofnod manwl gywir. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Medi 2024 |

## 36. Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu Deddf Gamblo 2005, 2025-2028

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynwyd yr Adroddiad gan yr Uwch Swyddog Trwyddedu, a'i ddiben oedd gofyn i'r Pwyllgor ardystio cyhoeddiad Datganiad Egwyddorion Trwyddedu y Cyngor ar gyfer cyfnod y tair blynedd nesaf o 2025 i 2028, a throsglwyddo'r polisi ymlaen i'r Cabinet a'r Cyngor am gymeradwyaeth a chyhoeddiad terfynol yn unol â'r rheoliadau.<br>Mynegodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a ddilynodd gyhoeddiad y Papur Gwyn ar Gamblo gan yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, bod y llywodraeth wedi cyhoeddi ei ganlyniadau a'r cynigion a fyddai'n effeithio ar y sector, drwy newidiadau i gasinos, peiriannau gemau mewn canolfannau gemau a neuaddau bingo, taliadau heb arian parod ar beiriannau gemau, gan sicrhau cynnydd o 15% i'r cap ffioedd y gall awdurdodau trwyddedu eu codi ar safleoedd yng Nghymru a Lloegr o'r diwedd.<br><br>Bu trafodaeth am yr ystadegau a ddisgwylir gan GAMCare, elusen annibynnol sy'n darparu gwybodaeth a chefnogaeth i'r rheiny a effeithiwyd gan niweidiau gamblo. Mae'r elusen wedi awgrymu casglu ystadegau gan y llinell gymorth gamblo Genedlaethol, sy'n cael ei gweithredu ganddynt, i gynorthwyo'r awdurdod i ddatblygu proffil lleol. Gan nad oedd yr ystadegau hyn wedi cael eu derbyn, cadarnhaodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu y byddai gwaith dilynol ar hyn.<br><br>Bu trafodaeth ehangach rhwng y rheiny a oedd yn bresennol am y newid a achosir gan y cynnig i dderbyn taliadau heb arian parod ar beiriannau gemau. Cynhaliwyd trafodaeth i archwilio'r posibilrwydd o godi pryderon ac ymatebodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu drwy ddweud, er bod y Papur Gwyn ar y mater wedi cael ei gwblhau erbyn hyn, nid oedd rheswm pam na allai pryderon gael eu lleisio. Cadarnhaodd i'r pwyllgor y byddai'n mynd drwy ymateb ymgynghoriad y Llywodraeth i wirio a oedd ymateb penodol i'r pryderon a godwyd gan yr aelodau o fewn y cyfarfod hwn.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Ardystiodd y Pwyllgor y Datganiad Egwyddorion Trwyddedu a gynigwyd, fel a atodir yn Atodiad A, i gael ei anfon ymlaen at y Cabinet a'r Cyngor am gymeradwyaeth derfynol a chyhoeddiad yn unol â'r rheoliadau.Cytunwyd y byddai'r Uwch Swyddog Trwyddedu yn mynd ar drywydd yr ystadegau a ddisgwylir gan GAMCare ac y byddai'n diweddaru'r Pwyllgor ynghylch ymateb ymgynghoriad y Llywodraeth i'r pryderon am y defnydd o daliadau heb arian parod. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Medi 2024 |

**37. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Medi 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 09:49.